Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ran y Bwrdd i bawb a gymerodd ran, ar bob lefel ym mhob Clwb ar draws Cymru gyfan, yn ogystal ag i'n Uwch Dîm Rheoli a'n holl staff am eu gwaith caled a'r aberth y maent wedi'i wneud i ddod â'r flwyddyn i ben yn gadarnhaol ac yn grif.

Allen Bewley
Cadeirydd, Nofio Cymru



Ar ran uwch dîm rheoli Nofio Cymru, ein tîm ehangach o staff a phawb sy'n ymwneud â'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol hoffwn eich croesawu i'n hadroddiad blynnyddol ar gyfer 2021/22.

Eleni rydym yn dathlu 125 mlynedd o fodaeth fel Corff Llywodraethu Cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer campau dŵr yng Nghymru, ac rwyf wedi mwynhau myfyrio ar ein hanes hir ar y cyd. Mae'n braf edrych yn ôl ar gampau rhyfeddol pobol fel Paulo Francesco Radmilovic y chwaraewr polo dŵr Olympaidd a'r nofwr o Gymru, ac Irene Steer y nofwr dull rhydd o Gymru (un o ddim ond 3 o ferched Cymru sydd wedi enill medalau aur Olympaidd!). Nid yw'r hyn rydym wedi'i gyflawni fel camp dros y blynnyddoedd ers hynny yn ddim llai nag ysbrydoledig. Wrth i mi ysgrifennu, rydym yn swyddogol yn un o brif weithgareddau/chwaraeon Cymru gyda bron i 500,000 o oedolion a phlant yn cymryd rhan mewn rhyw ffordd o leiaf unwaith yr wythnos. Mae llawer ohonoch sy'n darllen hwn wedi cyfrannu mewn rhyw ffurf neu'i gilydd at y llwyddiant hwn, a gyda'n gilydd rydym yn parhau i greu hanes.

Yr adeg hon y llynedd, disgrifiai 12 mis blaenorol fel 'blwyddyn heb ei thebyg' ac yn wir 'moment unwaith mewn cenhedaeth'. Ers hynny, rydym wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi pawb sy'n ymwneud â chmpau dŵr ledled Cymru i barhau i weithredu er gwaethaf heriau a rhwystrau a ddaeth yn sgil COVID-19. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cyrraedd miloedd o bobol ar draws y sector, o glybiau dŵr i ysgolion nofio a nofwr hamdden i weithredwyr cyfleusterau yn ystod eu cyfnod o angen. Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn or-ddwodi nodi, heb i'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol gymryd y camau a wnaeth i eiriol dros ein partneriaid a darparu cyngor, ni fyddai campau dŵr wedi gallu ysgogi, ac efallai na fyddai ein clybiau a'n partneriaid wedi gallu cael mynediad at y cymorth ariannol hanfodol yr oedd ei angen arnynt i oroesi'r pandemig.

Gyda'n gilydd, fe wnaethon ni greu llais cyfunol cryf fel bod ein gweithgareddau a'n chwaraeon yn gallu cael eu clywed ar lefel y Llywodraeth. Heb hynny, ni fyddai llawer o glybiau a chyfleusterau wedi ail-agor ac ni fyddai ein digwyddiadau a'n cystadlaethau wedi dychwelyd yng Nghymru mor gyflym ag y gwnaethant. Heb os byddai'r byd dyfrol yr ydym i gyd wedi gweithio'n galed iawn i'w greu dros y 125 mlynedd diwethaf wedi camu yn ôl ddegawdau.

Ar wahân i heriau, fel sefydliad buom yn gweithio'n agos gyda Chwaraeon Cymru a Thîm Cymru i gynnal ein hamgylcheddau perfformiad uchel ac amddiffyn ein hathletwyr hŷn. Arweiniodd hyn at ddewis chwe nofwr i gynrychioli Tîm Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd Tokyo 2020, a chyfrannodd ein Medalau Aur Olympaidd cyntaf (2) ers dros 100 mlynedd at y nifer uchaf erioed mewn gemau ar gyfer British Swimming.

Fe wnaethom greu canllawiau clir 'dychwelyd i weithrediadau'n ddiogel' ar gyfer ein 11 grŵp ddefnyddwyr gwahanol a ystyriwyd y rhai 'gorau yn y dosbarth' gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru a chyrrif allanol eraill, a hoffwn ddiolch i bob un o'n clybiau a phartneriaid cyfleuster am weithio mor dda â'i gilydd ar y canllawiau hyn fel bod nofio a champau dŵr eraill wedi cyfrannu'n gadarnhaol at yr amcanion iechyd cyhoeddus.

Ar ôl 18 mis o'r 'SUPER SERIES' rhithiol roeddwn wrth fy modd i weld ein hamserlen digwyddiadau llawn yn dychwelyd. O dan brotolau COVID, fe wnaethom groesawu'n ôl y nofwr gorau o bob grŵp oedran i brofi eu hunain ar y llwyfan cenedlaethol, a helpu i aduno'r gymuned ddiwethaf wrth ywylwyr ddychwelyd i Bwll Cenedlaethol Cymru i'w croesawu.

Dros y 12 mis diwethaf fe wnaethom ddefnyddio'r cyfle i gael 'llai o weithrediadau' i fwrr ymlaen ag esblygiad ein technoleg gan gyflwyno



ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR
ADRODDIAD BLYNYDDOL
NOFIO CYMRU 2020-2021

nifer o systemau i wella ein gweithrediadau. Cyflwynwyd datrysiau busnes SAGE i wneud adroddiadau ariannol ac anfonebu yn fwyr effeithlon, fe wnaethom gyflwyno MyConcern i gefnogi ein clybiau a gweithgareddau diogel ysgolion nofio, disoloddd JustGo yr hen system Integra (a reolwyd yn flaenorol gan Swim England) a mabwysiadwyd Canva ac Asana i wella ein dylunio a'n cyfathrebu.

Rydym wedi cynnal ein llwybr ar gydraddoldeb a chynhwysiant, gan ddefnyddio'r amser ar-lein i estyn allan at bartneriaid newydd a grwpiau cymunedol ar draws meysydd o'n cymunedau a grwpiau lleiafrifol nad ydnt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Fe wnaethom ddatblygu perthynas waith ag Immigrants UK, Diverse Cymru, y Black Swimming Association yn ogystal â gwahanol Grwpiau Mwslimaidd ac Africanaidd yn Ne Cymru. Ryw'n hynod gadarnhaol am yr effaith y gallwn ei chael yn y maes hwn wrth i ni fynd ati i wireddu ein gweledigaeth 'Campau Dŵr i bawb am oes' go iawn a gwneud gweithgareddau dŵr yn lle diogel a chroesawgar i bwy bynnag ydych chi, ac o ble bynnag yr ydych yn dod.

Nid oes amheuaeth bod y pandemig wedi taro ein gweithlu dyfrol yn galed, ac rydym yn dal i weld effeithiau hynny heddiw. Collodd 'y system' athrawon nofio, achubwyr bywyd a hyfforddwyd a wrth i'r tirlun gweithio symud tra bod pyllau ar gau. Ar ôl croesawu ein staff yn ôl o'r ffyrlo, dechreuodd tîm hyfforddi a datblygu Nofio Cymru weithio gyda'n partneriaid awdurdod lleol i hyfforddi staff newydd ac aihyfforddi'r rhai sydd wedi colli eu cymwysterau yn yr hyn y gellir dadlau yw'r ymgrych reiriwtio fwyaf a welodd ein sector erioed.

Mae ein clybiau dŵr yn parhau i ddatblygu talent wych a denu pobl wych mewn rolau gwirfoddol, fodd bynnag, rydym wedi gweld niferoedd llai yma hefyd. Mae ffigurau aelodaeth yn gyffredinol i lawr tua 30% ar lefelau cyn COVID ac mae wedi dod yn fwywfwy anodd i'n clybiau ddenu'r gwirfoddolwyr a'r swyddogion sydd eu hangen i gefnogi gweithrediadau a digwyddiadau clwb. Mae'r tîm a minnau yn gwbl ymwybodol o hyn, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn ei hyrwyddo drwy gydol y flwyddyn nesaf.

Felly, wrth inni 'aigodi'r gryfach' a mynd i'r afael â'r heriau newydd fel costau byw a'r argyfngau ynni presennol, yr un peth sy'n fy ysgogi dro ar ôl tro yw cryfder ac enw da cynyddol y gymuned ddŵr a'r bobol rydym yn gweithio gyda nhw. Mae'r rhan fwyaf ohonoch eisoes yn gwybod mai ein cryfder mwyaf yw'r angerdd a chariad at ein camp, a'r pŵer sydd gennym pan fydd ein staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid allweddol yn cymryd cyfleoedd neu fygythiadau GYDA'I GILYDD.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r bwrdd, staff, ein hathletwyr gwyth, clybiau, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr a phartneriaid am gefnogi Nofio Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda chi i gyd yn y misoedd i ddod.



Fergus Feeney
Prif Swyddog Gweithredol
Nofio Cymru

DEIFIO NOFIO ARTISTIC MEISTRI POLO DŴR DŴR AGORED




DATBLYGIAD CAMPAU DŴR

Mae'r 18 mis diwethaf wedi bod yn anodd i ni i gyd, ond mae Nofio Cymru, clybiau, a phartneriaid wedi dod at ei gilydd i frwydro'n ôl, a goroesi byd lle caewyd pyllau a lle rhoddywyd stop ar fod yn actif yn y dŵr. Nawr gallwn edrych ymlaen at ddyfodol gyda mwy o gyfleoedd dŵr nag erioed o'r blaen.

Llwyddodd Nofio Cymru i sicrhau cyllid Gaeaf o Les Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect 'Cychwyn Nofio yn y Blynnyddoedd Cynnwr'. Bydd menter Cychwyn Nofio yn canolbwntio ar greu cyfleoedd i blant teuluoedd incwm is a grwpiau anos ymgysylltu â nhw gael mynediad i'r amgylchedd dŵr. Roedd 23 o weithredwyr, gyda 63 o byllau, ar draws 15 Awdurdod Lleol yn cymryd rhan yn y prosiect Cychwyn Nofio a rannwyd yn 4 elfen allweddol: datblygu'r gweithlu, offer, sesiynau blasu, a chost ostyngol i wersi bloc, gyda'r nod o sefydlu cyfranogiad dŵr parhaus.

Er i gyfyngiadau COVID-19 oedi campau dŵr i'r rhan fwyaf ohonom, roedd hefyd yn tanio archwaeth enfawr ar gyfer nofio dŵr agored. O ganlyniad, creodd Nofio Cymru Achrediad S.A.F.E Cymru. Mae S.A.F.E Cymru wedi'i gynllunio i gefnogi cyfleusterau dŵr agored yng Nghymru a hyrwyddo a datblygu nofio dŵr agored ymhellach yn ddiogel. Mae ein hachrediad o safon fyd-eang yn darparu'r adnoddau a'r safonau angenheidol y mae angen i gyfleusterau eu bodloni i sicrhau cyfranogiad diogel yng Nghymru.

Mae'r achrediad hwn wedi'i ddatblygu gan Nofio Cymru mewn partneriaeth â Thriathlon Cymru ac mae'n cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a Diogelwch Dŵr Cymru fel uchafbwynt safonau cyfleusterau dŵr diogel yng Nghymru. Yn 2021 fe wnaethom ymuno â'n partneriaid cyntaf ac achredu nifer o safleoedd. Mae dyfodol S.A.F.E Cymru yn ddisglair iawn wrth i ni edrych ymlaen at ddatgloi nodweddon pellach a pharhau i gyflwyno manteision yr achrediad hwn ledled Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.



Mae gweithgaredd Cwricwlwm Ysgol wedi ailddechrau ledled Cymru gyda mwyafri y darparwyr yn adrodd bod ysgolion yn awyddus ac yn llawn cymhelliant i ddychwelyd i'r dŵr. Mae Awdurdodau Lleol wedi ymateb yn dda i'n harolygon i'n helpu i ddeall ymhellach y gweithlu sydd ei angen i gefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gwaith yn parhau i baratoi ymateb Nofio Cymru i'r Cwricwlwm newydd i Gymru a fydd yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2022.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Nofio Cymru wedi lansi o framwaith Dysgu Nofio i Oedolion Cymru, sy'n ymwneud â gwella hyder, techneg a diogelwch yn y dŵr, heb unrhyw derfyn oedran. Ni all tua 30% o oedolion yn y DU nofio hyd. Ac eto, hoffai chwarter yr oedolion nad ydynt yn nofio fynd ati i ddysgu.

Mae'n bleser gennym adrodd bod gweithredwyr Dysgu Nofio yn parhau i adrodd am niferoedd cynyddol yn eu raglenni, gyda llawer yn adrodd am raglenni llawn gyda rhestrau aros a nifer y cyfranogwyr yn fwy nag ystadegau Mawrth 2020. Yr her barhaus yw cael gweithlu digonol i gyflawni'r galw am ddarpariaeth.

Mae Nofio Cymru wedi datblygu Achrediad cyntaf o'i fath ar gyfer Ysgolion Nofio. Bydd ein nod ansawdd ar gyfer ysgolion nofio a gweithredwyr sy'n darparu Rhaglenni Dysgu Nofio yng Nghymru yn cydnabod rhagoriaeth o ran llywodraethu, cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd ac yn codi proffil y Rhaglen Dysgu Nofio ledled Cymru.

Eleni lansiodd Nofio Cymru mewn partneriaeth â BHF Cymru Her Nofio 60 #Ewchirdwr. Roeddym yn falch iawn o allu lansi'r her hon i ddathlu 60fed blwyddyn BHF fel elusen a chodi arian hanfodol i bweru ymchwil achub bywyd yr elusen i glefyd y galon a chylchrediad y gwaed. Mae wedi bod yn wych derbyn cefnogaeth gan glybiau, gweithredwyr nofio, athletwyr ac unigolion yn cefnogi'r ymgyrch hon. Bydd yr her yn cael ei hymestyn tan fis Rhagfyr 2022 – nid yw'n rhy hwyr i gymryd rhan!

Ar ddiwedd 2021, dychwelodd ein digwyddiadau cenedlaethol am y tro cyntaf ers 18 mis, er dan brotocolau COVID. Mae wedi bod yn wych gallu croesawu'n ôl y nofwr gorau o'r gwahanol grwpiau oedran i gystadlu i fod yn bencampwyr Cymru, rydym yn edrych i ddod â gwylwyr yn ôl am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig ym mhencampwriaethau Cenedlaethol Nofio Cymru.

Yn 2020 lansiodd Nofio Cymru MYCONCERN, meddalwedd diogelu ar gyfer ein clybiau. Mae'r feddalwedd wedi'i chreu a'i datblygu gan arbenigwyr amddiffyn plant, gyda chefn dir mewn gofal cymdeithasol, addysg a phlismona.

Rhododd Nofio Cymru y feddalwedd ar waith i alluogi swyddogion diogelu clybiau sy'n gyfrifol am amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg i reoli a chofnodi'r holl bryderon diogelu a lles yn hawdd. Mae Nofio Cymru am gael ei gydnabod fel arweinydd sector yn y maes. Dim ond un rhan o'r jig-so yw gweithredu MYCONCERN i sicrhau bod Campau Dŵr yn cael ei gydnabod fel y gamp fwyaf diogel.

Mae Nofio Cymru yn falch o gyhoeddi bod ein system aelodaeth newydd Just Go bellach yn fwy. Cwblhawyd y dyluniad, y ffurfweddu, y profi a'r lansiad erbyn y dyddiad cau ar 1 Ebrill. Cwblhaodd y clybiau broses ymuno trwy gydol mis Ebrill, a oedd yn gyfnod hynod o brysur ac o'r 78 Clwb, mae 75 bellach yn gwbl gysylltiedig. Hoffai Nofio Cymru achub ar y cyfre hwn i ddiolch i'r holl glybiau ac aelodau am eu cydweithrediad a'u hamynedd drwy'r broses bontio hon.

Wrth inni ddod allan o'r pandemig, mae'r tîm Campau Dŵr yn barod i archwilio ffyrdd newydd o sicrhau bod pobl Cymru yn cael y cyfre i ddod yn actif yn y dŵr. Dros yr ychydig fis oed nesaf fe welwch rai newidiadau o fewn ein strwythur staffio a fydd yn dod ag uchelgeisiau a syniadau arloesol i'r sefydliad, yn creu partneriaethau newydd trwy gydweithio, ac yn tanio ein hangerdd i gyflawni ein gweledigaeth – Camau Dŵr i Bawb am Oes.

Sioned Williams
Pennaeth Campau Dŵr a Chynhwysiant



DATBLYGU BUSNES

Fe wnaethom ragweld blwyddyn arall o adferiad yn 2021/22 oherwydd hinsawdd masnachol ansicr ar ôl COVID, ond fodd bynnag, roedd cyfleoedd gydag ailgor cyfleusterau hamdden, digwyddiadau yn dychwelyd, gwersinofio a hyfforddi gweithlu.

Ail-agorodd busnesau a chyfleusterau yn llawn heb gyfyngiadau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol ac fe wnaeth yr ailgor hyn ganiatáu i lawer o'n ffrydiau refeniw ailgychwyn ac adeiladu yn araf trwy gydol y flwyddyn.

Serch hynny, effeithiwyd ar feysydd fel nawdd a nwyddau digwyddiadau oherwydd canslo dau o'n digwyddiadau Cenedlaethol yn y gwanwyn a haf 2021.

Dychwelodd Datblygu Busnes ganlyniadau calonogol yn ystod y flwyddyn ariannol gan ragori ar gynllun gofalus ond realistic. O'i gymharu â chynllun 2021/22, mae Nofio Cymru wedi gwellla refeniwiau masnachol o 47% a gwella cyfraniad o 80%. Roedd refeniw Datblygu Busnes dros £500,000 trwy'r pedair ffrwd refeniw craidd o Hyfforddi a Datblygu, Dyfarniadau Dysgu Nofio, Nawdd a Nwyddau.

O gymharu 2021/22 â 2018/19 sef ei blwyddyn cyn bandemig ddiwethaf, gwellodd refeniw o 5% a chyfraniad o 32%.

Cyflwynodd prinder cenedlaethol o athrawon nofio a rhestrau aros hir ar gyfer nofwr her cyflawniad sylweddol inni. Gweithiodd y tîm hyfforddi a datblygu gan gynnwys ein rhwydwaith o diwtoriaid yn ddiflino i gefnogi anghenion a gofynion ein cwsmeriaid. Roedd cydweithio gyda'n partneriaid, gweithio i gwblhau cyrsiau ac ardystio swm sylweddol o gynrychiolwyr yn llwyddiant o bwys yn ystod y flwyddyn.

“
AIL-AGORODD BUSNESAU A CHYFLEUSTERAU YN LLAWN HEB GYFYNGIADAU YN GYNNAAR YN Y FLWYDDYN ARIANNOL AC FE WNAETH YR AILGOR HYN GANIATÁU I LAWER O'N FFRYDIAU REFENIW AILGYCHWYN AC ADEILADU YN ARAF TRWY GYDOL Y FLWYDDYN.
”

Fe wnaethom barhau i gynnig hyblygrwydd a dulliau amgen i'n portffolio hyfforddi, gyda chyrsiau wyneb yn wyneb yn dychwelyd, i ategu at yr opsïwn dysgu cyfunol poblogaidd iawn o addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein. Arweiniodd dadansoddiad ymchwil a datblygu a gynhalwyd trwy adain Hyfforddi a Datblygu'r busnes at gyrsiau newydd yn cael eu hychwanegu at y portffolio cyfredol gan gynnwys Cyn-eni ac Ôl-eni, lechyd Hir Dymor ynghyd â llu o weithdai a dosbarthiadau meistr eraill. Mae ein darpariaeth Hyfforddi a Datblygu yn parhau i gael ei adolygu er mwyn gwellia ein portffolio a pharhau'n berthnasol, gan ystyried anghenion partner a dysgwr.


Gyda gwersinofio yn dychwelyd yn genedlaethol gan gyflwyno Dysgu Nofio Cymru, mae ein dyfarniadau hefyd wedi dychwelyd i sefyllfa iach. Dosbarthwyd dyluniadau newydd a chafwyd croeso cynnes iddynt gan ein cwsmeriaid, oherwydd cynnydd mewn cost gan ein cyflenwyr bu'n rhaid inni gynyddu pris gwerthu am y tro cyntaf ers 2013.

Er gwaethaf canslo digwyddiadau allweddol, cynhalwyd Cyfres Her (Dŵr Agored) Nofio Cymru a Phencampwriaethau Gaeaf Nofio Cymru, er heb unrhyw wylwyr. O ganlyniad, ailgychwynnwyd y ffrwd refeniw nwyddau. Aethom ar drywydd dull cyflawni newydd ar gyfer cystadlaethau, gwerthu hwdis, crysau-t a hetiau o flaen llaw cyn y digwyddiad ar-lein. Profodd hyn yn hynod lwyddiannus a dyna fydd ein llwybr dewisol i'r farchnad wrth symud ymlaen.

Cynyddodd ein ffocws nawdd yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol, wrth i ni ymgysylltu â'n hasiantaeth allanol, Think!Sponsorship. Gyda'n gilydd byddwn yn ail-becynnu ein hasedau i greu cyfleoedd partneriaeth deniadol i gwmniau mawr a bach fuddsoddi ynddynt. Byddwn ni'n canolbwntio ar Becyn Perfformiad a hefyd cynnig Aelodaeth Gorfforaethol i'r farchnad yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae 2022/23 yn llawn addewid wrth i ni barhau i symud ymlaen gyda'n cwsmeriaid a'n partneriaid gyda phrosiectau newydd cyffrous gan gynnwys gwefan newydd gyda gwell e-fasnach, rydym yn diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth barhaus.

Jon Fletcher
Pennaeth Datblygu Busnes





ELÎT A PHERFFOMIAD

Yn dilyn blwyddyn heriol iawn ar gyfer chwaraeon perfformiad yn 2020/21 oherwydd pandemig Covid-19, ac ail gyfnod clo mawr rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth, dechreuodd blwyddyn ariannol 2021/22 yn optimistaidd gyda chyflwyniad llwyddiannus Cyfarfod Rhyngwladol Para British Swimming yn Sheffield a Chyfarfod Dethol British Swimming yn Llundain. Gwasanaethodd y digwyddiadau hyn fel y digwyddiadau prawf ar gyfer ail-drefnu Gemau Olympaidd a Pharalypaidd Tokyo 2020 ac fe'u gweithredwyd fel digwyddiadau 'elît' yn unig o dan reolau DCMS, gyda chystadleuwr cyfyngedig, dim gwylwyr a phrotocolau Covid-19 diogel llym.

Bu'r cyfnod hwn o gystadlu yn hynod llwyddiannus i athletwyr Nofio Cymru gyda 6 nofiwr o Gymru cael eu dewis i gynrychioli Tîm Prydain Fawr yn y Gemau Olympaidd yn Tokyo. Roedd hyn yn cyfateb i 20% o gyfanswm maint tîm nofio Prydain Fawr a 24% o'r cyfanswm o athletwyr o Gymru a ddewiswyd ar gyfer y Gemau Olympaidd ar draws yr holl gampau. Y nofwr o Gymru a ddewiswyd i gystadlu yn Tokyo oedd Alys Thomas, Harriet Jones, Daniel Jervis, Matt Richards, Kieran Bird a Calum Jarvis.

O'r diwedd agorwyd Gemau Olympaidd Tokyo 2020 ar y 23ain Gorffennaf 2021, ac er yn cael eu gweithredu y tu ôl i ddrysau caeidig a chyda phrotocolau Covid-19 llym, byddai'n llwyddiant mawr ac yn Gemau ffrwythlon iawn i Brydain Fawr, a Chymru, yn y pwll nofio. Enillodd Prydain gyfanswm o 8 medal (4 aur, 3 arian, 1 efydd) i orffen yn 3ydd yn y tabl nofio cyffredinol y tu ôl i UDA ac Awstralia a chofnodi eu perfformiad gorau ers 1908. O safbwyt Cymru, enillwyd medalau aur gan y nofwr o Gymru Matt Richards a Calum Jarvis yn y ras gyfnewid dull rhydd 4x200m y dynion. Dyma'r medalau aur cyntaf i'w hennill gan nofwr o Gymru mewn Gemau Olympaidd ers Irene Steer nôl yn 1912. Yn ogystal, cyflawnwyd rowndiau terfynol unigol gan Daniel Jervis (5ed - 1500m dull rhydd) ac Alys Thomas (7fed - 200m pili pala). Ar ran pawb yn Nofio Cymru hoffwn ddweud llonygarchiadau enfawr i'n chwe Olympiad Tokyo. Rydym i gyd yn hynod falch o'u llwyddiannau yn 2021.

Ym mis Mai 2021, cafodd cyfyngiadau Covid-19 eu llacio gan Lywodraeth Cymru er mwyn dechrau caniatâu ailddechrau gweithgarwch dyfrol dan reolaeth a'r dychweliad yn ôl at hyfforddiant i glybiau ledled Cymru. Gyda chymorth canllawiau a ddarparwyd gan Nofio Cymru, gwnaeth clybiau dŵr yng Nghymru waith gwirioneddol eithriadol o ran trefnu a rheoli ailddechrau hyfforddiant i'w haelodau, ymgysylltu ag athletwyr a bod yn rhagweithiol ac addasadwy yn eu dull o weithredu.

O safbwyt y rhai nad ydynt yn elît yn dychwelyd i gystadlu, arweiniodd Nofio Cymru y ffordd gyda Chyfarfod Dŵr Agored Nofio Cymru, a oedd yn cynnwys ras dethol Tîm iau British Swimming, ac a gynhalwyd ym mis Mehefin yng nghronfa ddŵr Llandegfedd. Profodd hon yn gystadleuaeth hynod llwyddiannus yn cynnwys tua 140 o nofwr o bob rhan o'r DU, ac roedd ffordd dderbyniol iawn o ddychwelyd at gystadlu i lawer o athletwyr nad oedd wedi gallu cystadlu trwy gydol y pandemig.

66

O'R DIWEDD AGORWYD GEMAU
OLYMPAIDD TOKYO 2020 AR Y 23AIN
GORFFENNAF 2021, AC ER YN CAEL
EU GWEITHREDU Y TU ÔL I DDRYSAU
CAEEDIG A CHYDA PHROTOLAU
COVID-19 LLYM, BYDDAI'N LLWYDDIANT
MAWR AC YN GEMAU FFRWYTHLON
IAWN I BRYDAIN FAWR, A CHYMRU, YN Y
PWLL NOFIO

''

Yn ogystal â hyn, ym mis Mehefin 2021 lansiodd Nofio Cymru ail ran y 'Super Series', sef cystadleuaeth rithiol dri cham a weithredwyd mewn rhagleni cartref, ac roedd hyn yn rhoi llwyfan gwych i nofwr perfformiad ledled Cymru cyn y gystadleuaeth fawr a'r gystadleuaeth pwll ym mis Awst 2021 yn yr 'Wyl Nofio' - menter ar y cyd rhwng British Swimming a'r Gwledydd Cartref i 'ailgychwyn' gystadleuaeth. Mewn cydweithrediad â chlybiau cynnal Swansea Aquatics a Dinas Caerdydd, roedd Nofio Cymru wedi darparu dwy gystadleuaeth nofio dan do (un ym Mhwll Cenedlaethol Cymru Abertawe ac un ym Mhwll Rhyngwladol Caerdydd), ac roedd y rhain yn cynnig cystadleuaeth i gannoedd o nofwr cystadleuol yng Nghymru.

Wrth i'r llwch setlo ar haf hynod gadarnhaol o gystadlu ar draws y llwybr perfformio, trodd y sylw'n gyflym at y tymor newydd, cychwyn gweithgaredd rhaglen Carfan Genedlaethol wyneb yn wyneb ac yn arbennig cefnogi nofwr, para-nofwr a deifwyr gydag uchelgeisiau i gael eu henwebu / dewis i Dîm Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2022 ym Birmingham. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfanswm o 122 o athletwyr wedi derbyn cefnogaeth a/ neu wedi cyrchu gweithgarwch y Rhaglen Genedlaethol yn amrywio o hyfforddiant domestig, datblygu sgiliau ac addysg gyfannol, hyd at hyfforddiant rhyngwladol a chyfleoedd cystadlu.

Dros y 12 mis diwethaf mae Tîm Perfformiad Nofio Cymru hefyd wedi lansio nifer o fentrau newydd, gan gynnwys strwythurau 'esblygu' Rhaglen Carfan Genedlaethol a Datblygu Hyfforddwyd, tra hefyd yn parhau i hyrwyddo a datblygu mentrau allweddol a lansiwyd yn 2020 gan gynnwys #GetintoParaSwimming, ymgrych â ffocws i hyrwyddo a datblygu Nofio Para yng Nghymru yn well.

Wrth i ni edrych ymlaen tuag at flwyddyn ariannol 2022/23, bydd calendr y gystadleuaeth yn cyflwyno llawer o gyfleoedd i athletwyr dŵr. Ar lefel elît, bydd aildrefnu digwyddiadau yn arwain at gynnal Pencampwriaethau Campau Dŵr y Byd, Pencampwriaethau Para Nofio'r Byd, Gemau'r Gymanwlad, a Phencampwriaethau Ewrop mewn haf prysur o gystadlu rhyngwladol. Bydd hefyd yn gweld croeso i gystadleuaeth iau rhyngwladol ddychwelyd ym Mhencampwriaethau iau Ewrop ynghyd â lefel uwch o gystadleuaeth ddomestig ar draws y llwybr.

Mae'r digwyddiadau treial terfynol a gwblhawyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon ym mis Ebrill 2022 wedi rhoi perfformiadau hynod gadarnhaol cyn cystadlaethau rhyngwladol yr haf, gyda 4 athletwr yn cael eu dewis i dîm Pencampwriaeth y Byd Prydain, 23 o athletwyr (16 nofwr, 4 para-nofwr, a 3 deifiwr) yn cael eu dewis i Dîm Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad, a 5 athletwr yn cael eu dewis ar gyfer Pencampwriaethau iau Ewrop.

Hoffwn fanteisio ar y cyfre hwn i ddiolch yn bersonol i bawb o'n partneriaid allweddol – British Swimming, Swim England, Scottish Swimming, Chwaraeon Cymru, Tîm Cymru a'n darparwyr cyfleusterau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad, a'r holl athletwyr, hyfforddwyr, ymarferwyr gwyddor chwaraeon, a gwirfoddolwyr clybiau ar draws Cymru sydd wedi rhoi cymaint i wneud eleni'n gymaint o llwyddiant.

Ross Nicholas
Cyfarwyddwr Perfformiad Cenedlaethol



09

Nifer athletwyr Nofio Cymru ar raglen Safon Fyd-eang British Swimming / British Para ar gyfer 2021/22

06

Nifer yr athletwyr nofio Cymru wedi'u dewis i gynrychioli Tîm Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd Tokyo wedi'u hailandrefnu

23

Nifer yr athletwyr a enillodd safonau enwebiad / cymhwyster Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022

122

Nifer yr athletwyr a gafodd eu cefnogi gan Lwybr Cenedlaethol Nofio Cymru 2021/22





CYFATHREBU



Mae wedi bod yn flwyddyn hynod gyffrous ac eto heriol i'r adran Gyfathrebu sydd newydd ei ffurio yn Nofio Cymru. Cefais fy mhenodi'n Rheolwr Cyfathrebu ym mis Hydref ac rwyf wedi bod yn awyddus i ddefnyddio fy mhrofiad a'm harbenigedd o fyd newyddiaduraeth chwaraeon a chysylltiadau cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr ym myd campau dŵr.

Treuliodd y sefydliad a'r gymuned ddwyr ehangach yng Nghymru gyfnodau mawr yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn brwydro yn ôl o bandemig COVID-19, ond mae eu gwaith diflino wedi cyflawni rhagoriaeth mewn nifer o feisydd ledled y busnes.

Ysbrydolodd dau o'n hathletwyr perfformiad y genedl wrth iddynt ddod â chyfnod o 100+ o flynyddoedd o aros am fedal aur Olympaidd i Gymru i ben yn Tokyo, tra bod adrannau ar draws y sefydliad wedi lansio prosiectau a rhagori ar gerrig milltir allweddol i ddod â ni'n agosach at ein gweledigaeth o 'Campau Dŵr i Bawb am Oes'.

O safbwyt cyfathrebu, mae'r llwyddiannau hyn wedi ein galluogi i ymgysylltu â chynulleidfa eang a thyfu dilyniant ac enw da'r brand. Er y bu digon o straeon newyddion cadarnhaol i'w dathlu, roedd COVID-19 a'i effaith hir yn golygu ein bod wedi gorfol bod yn rhagweithiol yn ein dull o hysbysu ein haelodau a'n partneriaid am y datblygiadau diweddaraf yn erbyn cefndir tirwedd campau dŵr a oedd yn newid yn barhaus.

Yn dilyn cyfnod enbyd i chwaraeon a chymdeithas yn gyffredinol, rhoddodd Gemau Olympaidd Tokyo a oedwyd gyfle i ni gyd ddathlu ein hathletwyr elît sydd ar ben ein camp. Defnyddiodd Nofio Cymru y platform gwych hwn i godi proffil yr athletwyr Cymreig a aeth i'r Dwyraint Pell, y busnes, a'n camp ni er mwyn ysbrydoli'r genedl i fynd yn ôl i'r dŵr.

Ar ôl cyhoeddi'r 'Chwech Disglair' o athletwyr Cymru a ddewiswyd ar gyfer y Gemau, fe wnaethom hwyluso cyfweliadau a chynnwys cyfryngau cymdeithasol mewn ymgais i ddod â'r sêr nofio yn nes at ein cynulleidfa oedd craidd ac ehangach. Dim ond y dechreuad oedd y straeon

newyddion da oedd y cyhoeddiad wrth i Daniel Jervis gyrraedd ei rownd derbynol Olympaidd gyntaf a Calum Jarvis a Matt Richards oedd y nofwr cyntaf o Gymru ers dros ganrif i gipio aur Olympaidd yn y Ras Gyfnewid Dull Rhydd 4x200m.

Daeth eu perfformiadau â sylw mawr i nofio, gyda chyrraeddiaid cyfryngau cymdeithasol yn ymestyn i tua 11,000 o argraffiadau'r dydd yn ystod y Gemau ar Twitter. Ysbrydolodd y perfformiadau hyn ein strategaeth gyfathrebu gyfredol i ysbrydoli pobl ledled Cymru i ymgysylltu â champau dŵr.

Tra bod ein nofwr cyflymaf yn gosod eu henwau mewn hanes ar y llwyfan byd-eang, dechreuodd digwyddiadau ddychwelyd gyda Chystadlaethau 'Super Series' a Gŵyl Nofio, Nofio Cymru. Roedd cyfathrebu'n allweddol wrth i ddigwyddiadau ddychwelyd ledled Cymru gyda phrotocolau llym i leihau'r risg o ledaenu'r firws.

Yn sail i ddychwelyd i'r dŵr oedd sesiynau ymgysylltu rheolaidd gyda'n partneriaid a'n clybiau sy'n aelodau. Roedd y rhain yn hollbwysig wrth i ni helpu'r gymuned campau dŵr i ddod at ei gilydd trwy adfyd a chael y wybodaeth ddiweddaraf i hwyluso'r broses o dosglwyddo'n ôl i'n realiti newydd ar ôl y pandemig.

Buom hefyd yn cydweithio'n agos â phartneriaid iechyd gan gynnwys Sefydliad Prydeinig y Galon i gael miloedd o bobl yn ôl i'r dŵr yn dilyn ailagor pyllau gyda'r Her Nofio 60. Lansiwyd prosiectau allweddol pellach gan gynnwys Dysgu Nofio i Oedolion a phrosiect Achredu Dŵr Agored S.A.F.E Cymru yn 2021 hefyd.

Roedd nifer o brosiectau hanfodol i'w cynnwys yn y strategaeth Gyfathrebu newydd, gan gynnwys dathlu 125 mlynedd y sefydliad, adeiladu gwefan newydd Nofio Cymru a'r trawsnewid i'r un newydd wrth ymateb i faterion a oedd yn dod i'r amlwg megis ymdeoliad Georgia Davies a thwf yr agenda cydraddoldeb mewn chwaraeon.

“

TRA BOD EIN NOFWYR CYFLYMAF
YN RHOI EU HENWAU YN Y LLYFRAU
HANES AR Y LLWYFAN RHYNGWLADOL,
DECHEMUDD DIGWYDDIADAU
DDYCHWELYD GYDA CHYSTADLAETHAU
'SUPER SERIES' A GŴYL NOFIO,
NOFIO CYMRU

”

Gwahoddwyd y sefydliad hefyd i gyfleo'r heriau sy'n wynebu ein sector i Senedd Cymru yn y Senedd ar ddau achlysur gwahanol. Mae'r sgrysiau hyn eisoes wedi dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir ar lefel seneddol yng Nghymru, a gobeithiwn fanteisio ar eu heffaith gadarnhaol.

Mae'r dyfodol yn ddisglair i'r brand o safbwyt Cyfathrebu gyda Gemau'r Gymanwlad a phartneriaethau newydd cyffrous yn rhoi hwb newydd i dyfu enw da a chyrraeddiaid y cwmni yn y flwyddyn ariannol newydd. Bydd heriau hefyd yn wynebu ein chwaraeon a'n partneriaid yng nghanol argywng ynni wrth i'r byd barhau i algori ar ôl y pandemig, ond byddwn yn parhau i weithio'n galed, i ymgysylltu â'n cynulleidfa oedd, a cheisio ysbrydoli cenedl i fynd i mewn i ddwyr.

James Candy
Rheolwr Cyfathrebu

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Rwy'n falch o ddweud ein bod fel sefydliad yn gwneud cynydd da gyda'n gwelliannau mewn amrywiaeth o fewn y sector Campau Dŵr, yn enwedig creu cyfleoedd i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol ymuno â'u teulu dyfrol.

Mae ein hymchwil dros y 12 mis diwethaf wedi rhoi cipolwg pellach ar yr awydd i nolio a dod yn fwy gweithgar yn y dŵr o fewn grwpiau lleiafrifol a chymunedau amrywiol, ac mae wedi ysgogi mentrau i fagu hyder yn y dŵr a sesiynau dysgu nolio mewn sawl awdurdod lleol. Fel sefydliad rydym yn cymryd camau cadarnhaol i wella amrywiaeth ymhlieth ein staff a'n bwrdd ein hunain, fel ein bod yn cynnwys safbwytiau a meddyliau pob rhan o'n cymdeithas yng Nghymru er mwyn datblygu perthnasoedd cynaliadwy llawn ymddiriedaeth.

Eleni rydym wedi parhau i adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau fel Diverse Cymru, Street Games, Immigrants UK a African Refugees fel y gallwn elwa o fewnbwn gan arweinwyr cymunedol i gefnogi ein sgyrsiau ar gampau dŵr a'r llwybrau addas ar gyfer hygyrchedd.

Byddwn yn parhau i ganolbwytio'n helaeth ar adeiladu rhwydwaith cryf o bartneriaid yn y maes hwn ac yn gweithio ar y cyd â'r partneriaid hyn i gynllunio sesiynau ymgysylltu ar gyfer cymunedau sydd eisiau nolio. Dros y misoedd nesaf byddwn yn datblygu cynllun ar gyfer hyfforddiant fel y gallwn ddeall y rhwystrau yn uniongyrchol gan bartneriaid a chymunedau, a llywio ein camau nesaf i fyw ein gweledigaeth 'Campau Dŵr i bawb am oes'.

Fel chwaraeon cyfranogiad haen 1 rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fod yn gamp sy'n canolbwytio ar yr unigolyn gan ddeall anghenion a chymhellion ein holl gymunedau yng Nghymru ac sy'n cyd-fynd yn agos â 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.

Rwy'n hyderus, y gallwn, gyda'n gilydd, osod sylfeini i siapio'r dyfodol ar gyfer Cymru fwy cyfartal.

ELWA HELP ASESU MOESEG SIARTERI GWELEDIGAETH GWERTHOEDD ARWEINWYR GRYMUOSO RHEOLAETH CYFRANDDALWYR ARFERIONGORAU GWERTHUSO ATEBOLRWYDD CYFRIFOLDEB LYWODRAETHIANT

Mae Nofio Cymru yn alinio ei hun â GLFW (Fframwaith Llywodraethu ac Arwain Cymru) fframwaith sy'n darparu set o egwyddorion i gefnogi rheoli ac yn ein helpu i redeg y sefydliad gydag uniondeb a thryloywder.

Mae GLFW hefyd yn ymneud â diwylliant y sefydliad, ei arweinyddiaeth, ei werhoedd a'i uniondeb.

Dros y 12 mis diwethaf+ rydym wedi gwneud pob un o'n clybiau aelod cysllt yn ymwybodol o'r fframwaith, a byddem yn annog ein clybiau a phartneriaid cysylltiedig eraill i fabwysiadu'r fframwaith a meinchnodi eu hunain yn ei erbyn. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud gallwn weithio gyda'n clybiau i fornitro gwelliant parhaus a'u helpu i ragori.

Mae Nofio Cymru eisai helpu clybiau i sefydlu'r systemau a'r rheolaethau i redeg sefydliadau effeithiol a chynaliadwy. Gall y fframwaith hwn hefyd gefnogi arweinyddiaeth clwb i sefydlu diwylliant iach a dyletswydd gofal tuag at eraill ochr yn ochr â'r cyfrifoldeb cyfreithiol a moesol sy'n bodoli i ddiogelu aelodau ac unrhyw un yn amgylchedd y clwb neu o'i gwmpas.

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o GLFW ar gael ar wefan Nofio Cymru. Fel sefydliad, mae Nofio Cymru yn adolygu ei bolisiau a'i weithdrefnau yn flynyddol drwy asesu mewnol ac allanol, ac mae'n blesar gennyl ddweud ein bod wedi rhagori yn y maes hwn am flwyddyn arall, ond fel bob amser mae lle i symud ymlaen a gwella. Rydym wedi dechrau adolygiad o'n polisiau sefydliadol gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac wedi'u halinio â deddfwriaeth briodol. Mae rheolau Nofio Cymru wedi'u diwygio eleni ochr yn ochr â'r codau ymddygiad.

Gan edrych ar y 12 mis nesaf byddwn yn cynllunio adolygiad cydweithredol o gyfansoddiad y clwb i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion ein haelodau, a chreu dogfen addas i'r diben sy'n cefnogi llywodraethiant a datblygiad clwb da.

“

MAE'N BLESER GEN
I DDWEUD EIN BOD
WEDI RHAGORI AR
HYN YN Y MAES HWN
AM FLWYDDYN ARALL,
OND FEL BOB AMSER
MAE LLE I DDATBLYGU
A GWELLA.

”



DIOGELU

“

MAE POBL IFANC WEDI BOD YN
DDIOLCHGAR I GAEL DYCHWELYD
I'R ELFENNAU CYMDEITHASOL A
DDAW O FOD YN AELOD O GLWB, MAE
LLAWER YN HAPUS I FOD YN ÔL AC
YN MWYNHAU EIN CYSTADLEUAETH
A'N DIGWYDDIADAU A'R GAMP Y
MAENT YN EI CHARU.

”

Diogelu yw 'y camau a gymerwn i hyrwyddo lles plant ac oedolion mewn perygl a'u hamddiffyn rhag niwed'

Mae'n bwysig bod clybiau a sefydliadau'n darparu profiad diogel a chadarnhaol ac mae hynny'n golygu bod angen i'n clybiau a'n partneriaid gael gweithdrefnau penodol yn eu lle. Mae hyn nid yn unig yn creu amgylchedd diogel i bawb ond mae'n sicrhau mesur gweladwy o ddiwylliant iach yn eich clwb.

Wrth i ni ddechrau dod allan o'r cyfnod clo'r llynedd, dywedais fod rhai pobl ifanc yn disgrifio eu hunain fel rhai oedd yn teimlo eu bod 'wedi'u caethiwo' gan y cyfngiadau a'r diffyg gweithgareddau cymdeithasol/ysgol ac roedd hyn i gyd yn effeithio ar lechyd meddwl pobl ifanc. Ryw'n falch o ddweud wrth i normalrwydd ailddechrau bod pobl ifanc wedi bod yn ddiolchgar am ddychwelyd at yr elfennau cymdeithasol a ddaw o fod yn aelod o glwb, mae llawer yn hapus i fod yn ôl ac yn mwynhau ein cystadleuaeth a'n digwyddiadau a'r gamp y maent yn ei charu.

Mae'n gwbl hanfodol bod gan bob clwb neu sefydliad Swyddog Lles, mae'n rôl bwysig iawn. Y rôl yw cynorthwyo gyda diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, ar adeg ysgrifennu hwn mae gan 92% o'n clybiau cysylltiedig Swyddogion Lles ac mae'r gweddill yn cael eu cefnogi gan Nofio Cymru i reciwtio'n ddiogel.

“
YN OLAF, MAE'N RHOI PLESER MAWR I
MI DDWEUD FOD NOFIO CYMRU WEDI
CYNNAL EI L3 DIOGELU PLANT YNG
NGHYMRU AM FLWYDDYN ARALL.
CYFLAWNWYD L3 YN GYNTAF YN 2013
AC MAE EIN GWAITH PARHAUS YN
ADLEWYRCHU EIN HYMRWYMIAD I
SICRHAU BOD POB PLENTYN SY'N
CYMRYD RHAN MEWN CAMPAU DŴR YN
DDIOGEL AC YN RHYDD O NIWED

”

Mae Nofio Cymru wedi cyflwyno cyfnod ymsefydlu ar gyfer pob Swyddog Lles sy'n newydd i'w swydd waeth beth fo'u cefndir proffesiynol. Cyfrifoldeb y cadeirydd yw sicrhau bod y Swyddog Lles yn trefnu hyn gyda Phennaeth Llywodraethu Nofio Cymru, mae'r Swyddog Lles yn adrodd i'r cadeirydd pan fydd y cyfnod ymsefydlu wedi'i gwblhau.

Fel y bydd darllenwyr yn gwybod o'm hadroddiad y llynedd lansiwyd meddalwedd MyConcern gan Nofio Cymru yn 2020, mae MyConcern yn blaftrform ar-lein sy'n cydymffurfio â GDPR ar gyfer cofnodi pryderon diogelu'r holl glybiau a sefydliadau cysylltiedig. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y clybiau sy'n defnyddio'r dull diogel hwn o gofnodi pryderon, a gobeithiwn ei weld yn cael ei ddefnyddio'n ehangu ar draws y rhwydwaith clybiau yn y misoedd i ddod.

Mae'n bleser gennyl ddweud bod sawl Fforwm Swyddogion Lles wedi'u cynnal eleni, mae'r fforymau hyn yn darparu cyfleoedd hyfforddi pellach yn ogystal ag ymgysylltu â Swyddogion Lles eraill a rhannu arferion gorau. Eisoes eleni rydym wedi cynnal fforymau ar Ymwybyddiaeth lechyd Meddwl ac lechyd Merched, gyda'r olaf yn rhoi cipolwg gwych ar fenywod ifanc yn rheoli eu misglwyf mewn chwaraeon.

Diwygiwyd y polisi diogelu plant ym mis Chwefror 2021 ac mae ar gael ar wefan Nofio Cymru a bydd ar gael ar JustGo (ein platform aelodaeth newydd) ar gyfer y flwyddyn aelodaeth nesaf. Rydym yn bwriadu adolygu'r polisi oedolion mewn perygl yn gynnar yn 2022 gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â deddfwriaeth.

Yn ofal, mae'n rhoi pleser mawr i mi ddweud fod Nofio Cymru wedi cynnal ei L3 Diogelu Plant mewn Chwaraeon am flwyddyn arall. Cyflawnwyd L3 am y tro cyntaf yn 2013 ac mae ein gwaith parhaus yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn sy'n cymryd rhan mewn Campau Dŵr yn ddiogel ac yn rhydd rhag niwed.

Zita Cameron
Pennaeth Llywodraethu (Arweinydd Diogelu a Lles Nofio Cymru)



ADRODDIAD CYLLID CYFRIFON

Parhaodd y pandemig coronafeirws i effeithio ar y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (2021/22). Dechreuodd y flwyddyn ariannol ym mis Ebrill 2021 pan oedd yr ail gyfnod glo yn parhau mewn grym. Dechreuodd gyfleusterau ailagor ym mis Mai 2021 gyda chyfngiadau.

Parhaodd Nofio Cymru i ganolbwntio ar ffrydau refeniw y gallid eu gwasanaethu ar-lein gan gynnwys hyfforddi a datblygu, nwyddau a bathodynnau a thystysgrifau.

Parhaodd digwyddiadau i gael eu heffeithio. Daeth nifer dda i'r Gyfres Heriau dŵr agored ym mis Mehefin 2021 ac fe wnaethom hefyd barhau â'n 'Super Series' rhithiol. Y digwyddiad dan do Cenedlaethol cyntaf i ddychwelyd oedd Pencampwriaethau'r Gaeaf ym mis Rhagfyr 2021 ond heb unrhyw wylwyr. Effeithiwyd ar gyfleoedd nwyddau a nawdd fel sgil-effaith i'r amserlen lai o ddigwyddiadau.

Roedd y ffioedd aelodaeth a dderbyniwyd ar gyfer 2021/22 30% yn is na chyn pandemig 2019/20. Rhoddyd cymhorthdal i ffioedd ymaelodi ar gyfer pob clwb a chyflwynwyd ffenestr adnewyddu aelodaeth estynedig hyd at 31 Mai i helpu ein haelodau. Creodd Nofio Cymru hefyd Gronfa Adferiad Campau Dŵr Nofio Cymru (SWARF) a dosbarthwyd £78.6 mil i gefnogi clybiau yn ystod y flwyddyn.

Er bod cyllid craidd wedi aros yr un fath, llwyddodd Nofio Cymru i ddefnyddio'r Gronfa Adfer Chwaraeon i fuddsoddi mewn prosiectau i helpu i ailgodi'n gryfach. Roedd rhai o'r prosiectau'n cynnwys system aelodaeth newydd a aeth yn fyw ym mis Ebrill 2022, gwefan wedi'i diweddu a buddsoddiad i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes campau dŵr.

Roedd Nofio Cymru hefyd yn falch iawn ar ôl 2 flynedd o gael hawliad llwyddiannus yn erbyn yr yswiriant tarfu ar fusnes a oedd yn gwneud iawn am rywfaint o'r refeniw a gollwyd o 2020. Dangosir hyn fel eitem eithriadol yn y datganiad incwm.


Roedd 2021/22 yn flwyddyn anarferol o ailadeiladu a cheisio cryfhau ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r sefydliad wedi dychwelyd i'w sefyllfa cyn pandemig eto a bydd angen parhau â'r gwaith dros y blynnyddoedd nesaf i gyrraedd y pwynt hwnnw.

Mae'r hawliad yswiriant a phrisiaid eiddo wedi helpu i gryfhau'r cronfeydd wrth gefn, y gwarged am y flwyddyn heb gynnwys yr eitemau hyn oedd £26 mil. Disgwylir i 2022/23 fod yn flwyddyn o newid ac addasu er mwyn diogelu'r sefydliad 125 oed at y dyfodol.

Emma Powell
Pennaeth Cyllid a Gweinyddu

YSTADEGAU

INCWM	▲ 2,254,946
COSTAU	▲ 2,228,398
GWARGED	▲ 135,019
NIFER Y GWEITHWYR	▲ 26 GWEITHIWR



INCWM CYFRIFON

31/03/2022 31/03/2021

GRANTIAU	£	£
Chwaraeon Cymru	1,260,823	1,119,700
Cyllid arall	126,979	90,948
	1,387,802	1,210,648

DATBLYGIAD CAMPAU DŴR

Aelodaeth	212,515	205,639
Digwyddiadau	117,016	(3,740)
Rhanbarthol	27,741	-
Deifio	13,296	1,738
Polo Dŵr	42,190	7,520
Dŵr Agored	2,960	-
Nofio Artistig	-	45
Meistri	-	120
	415,718	211,592

DATBLYGU BUSNES

Nwyddau	10,001	1,761
Nawdd	5,417	-
Bathodynnau a thystysgrifau	50,503	4,169
Addysg	347,650	62,084
	413,571	68,014

PERFFORMIAD

CENEDLAETHOL	24,667	5,346
--------------	--------	-------

HAWLIAD YSWIRIANT

TARFU AR FUSNES	53,390	-
-----------------	--------	---

CYNNYDD O AILBRISIAD

EIDDO BUDDSODDI	55,000	-
-----------------	--------	---

INCWM ARALL	13,269	12,742
-------------	--------	--------

2,363,417 **1,508,342**



GWARIANT CYFRIFON

	£	£
DATBLYGIAD CAMPAU DŴR		
Staffio	143,845	144,989
Aelodaeth	48,050	10,249
Digwyddiadau	136,811	74,945
Rhanbarthol	109,737	6,975
Deifio	26,154	30,951
Polo Dŵr	42,084	3,310
Nofio Artistig	-	1,071
Llwybr	129,458	19,837
Meistri	-	124
Dŵr Agored	14,225	3,774
	<hr/> 650,364	<hr/> 296,225
DATBLYGU BUSNES		
Staffio	38,028	65,488
Nwyddau	17,005	2,517
Nawdd	1,575	-
Bathodynnau a thystysgrifau	12,226	1,023
Addysg	213,515	90,799
	<hr/> 282,349	<hr/> 159,827
PERFFORMIAD CENEDLAETHOL		
Rhaglen Elît	307,391	202,410
Staffio Elît	401,813	399,746
Athletwr Elît	83,582	-
	<hr/> 792,786	<hr/> 602,156
GORBENION		
	<hr/> 502,899	<hr/> 416,735
	<hr/> 2,228,398	<hr/> 1,474,943
NET		
(Diffyg)/gwarged ar gyfer	<hr/> 135,019	<hr/> 33,399



MANTOLEN CYFRIFON

	31/03/2022	31/03/2021
	£	£
ASEDAU SEFYDLOG		
Asedau diriaethol	23,810	6,751
Buddsoddiadau	1	1
Eiddo buddsoddi	410,000	355,000
	<hr/>	<hr/>
	433,811	361,752
ASEDAU CYFREDOL		
Stociau	8,804	9,782
Dyledwyr	330,338	230,541
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	650,843	789,881
	<hr/>	<hr/>
	989,985	1,030,204
CREDYDWYR		
Symiau sy'n ddyledus	653,915	746,008
o fewn blwyddyn	<hr/>	<hr/>
ASEDAU CYFREDOL NET	336,070	284,196
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL	769,881	645,948
CREDYDWYR		
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	(35,000)	(45,000)
	<hr/>	<hr/>
DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU	(4,994)	-
ASEDAU NET	729,887	600,948
CRONFEYDD WRTH GEFN		
Cronfa ailbrisio	107,207	107,207
Cronfa gwerth teg	55,000	-
Cyfrif incwm a gwariant	567,680	493,741
	<hr/>	<hr/>
	729,887	600,948





sportwales
chwaraeoncymru

TYR

cardiff international pool
pwall rhwngwladol caerdydd

BRITISH
SWIMMING

Wales National
Pool Swimming
Pwll Cenedlaethol
Cymru Ablertawe

Swim
England

LLOYDS BANK

SWIM
SAFE

Cobalt HR

Lifeboats

wsa:
gwasanaeth ymchwyr cymru

ROYAL
LIFE SAVING
SOCIETY UK

howden

SPORT
PASSPORT

empyrean
digital

Scottish
Swimming

Youth Sport Trust

everyone
ACTIVE

AQUA
PASSPORT

MORGAN LA ROCHE
SOLICITORS

speedo

Let's
Talk
Design.

LGBT
SPORT
CYMRU

RACE
EQUALITY
FIRST

NSPCC

Child Protection in Sport Unit

DISABILITY
CHWRAEON
SPORT
WALES
CYMRU

CHWRAEON
BME
SPORT
CYMRU

swimsure
Swimming club Insurance

buffoon
MEDIA

Community
Leisure UK

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'n holl bartneriaid sydd wedi gwneud y flwyddyn ddiwethaf yn llwyddiant ysgubol.

Diolch!



SWIM WALES
NOFIO CYMRU

NOFIO CYMRU
Pwll Cenedlaethol Cymru,
Lôn Sgeti,
Abertawe,
SA2 8QG